CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 11 CHWEFROR 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mr P J Wood (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S Halsall
Mr J Bader (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. L Brough

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 13 IONAWR 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Un Llais Cymru (OVW)

3.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy o Faint OVW a rhoddodd gyflwyniad ar etholiadau cynghorau cymunedol a'r arolwg etholiadol sydd ar ddod.

Arolwg Ffin Merthyr Tudful Powys

3.2 Anfonwyd llythyr at yr Isadran Noddi yn amlinellu'r ddau opsiwn o ran datrys mater ffiniau siroedd wedi'u cadw fel y'u cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Derbyniwyd ymateb gan yr Isadran Noddi yn gofyn am ragor o fanylion gan yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn pennu cwmpas unrhyw arolwg pellach. Darparwyd y manylion hyn i'r Isadran Noddi ac mae'r Comisiwn yn awr yn aros am ymateb pellach ganddynt mewn perthynas â hyn.

3.3 Cadarnhawyd yr atgyfnerthwyd gweithdrefnau'r Arolwg bellach a'u hychwanegu at y cofnod risgiau.

Adborth o'r Gweithdy

3.4 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi edrych ar y posibilrwydd o'r Comisiwn yn cael stondin yng nghynadleddau blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac OVW ac mae'n debyg y byddai cost i'w thalu. Ystyriodd y Comisiwn pe byddent yn mynd i fod yn bresennol yn y cynadleddau hyn y byddai'n ddymunol cynhyrchu taflen wybodaeth ar y Comisiwn yn Gymraeg a Saesneg Clir.

Cylchlythyr y Comisiwn

3.5 Ystyriodd y Comisiwn y cylchlythyr drafft. **Cytunwyd** y byddai gan yr Aelodau 24 awr i ystyried y cynnwys ac i anfon unrhyw sylwadau sydd ganddynt at yr Ysgrifennydd. **Cytunwyd** os na dderbyniwyd unrhyw sylwadau y byddai'r Ysgrifennydd yn trefnu i'r cylchlythyr gael ei gyfieithu a'i ddosbarthu i'r prif gynghorau ac i'r cynghorau cymunedol. Cytunwyd y câi'r cylchlythyr ei anfon drwy'r e-bost at y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ar gyfer pob prif gyngor gyda'r cyfarwyddyd y dylid anfon copïau electronig at bob aelod o'r cyngor. **Cytunwyd** y câi 5 copi caled o'r cylchlythyr eu hanfon at y cynghorau cymunedol i'w dosbarthu ymhlith yr aelodau. Câi'r trefniant hwn ei adolygu i sicrhau bod y nifer cywir o gopïau'n cael eu hanfon.

Cynllun Cyhoeddi

3.6 Roedd yr Ysgrifennydd wedi ysgrifennu at yr Isadran Noddi mewn perthynas â goblygiadau'r cynllun cyhoeddi newydd. Penderfynwyd nad oedd yr effaith o roi'r cynllun newydd ar waith mor sylweddol ag y credwyd ar y dechrau. Roedd yn bosibl felly i'r Comisiwn ddilyn arweinyddiaeth Cynulliad Cymru i raddau helaeth. **Cytunwyd** y câi papur adroddiad cynnydd ei roi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

4. AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – ADRODDIAD TERFYNOL

4.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd wrth yr Aelodau am gais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gyflwyno cynrychiolaeth hwyr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn gwrthod cais y Cyngor ar y sail ei fod wedi ei gyflwyno dipyn o amser ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cynrychiolaethau ac ni roddwyd unrhyw resymau cryf o ran paham na wnaed y cynrychioaethau yn gynharach.

4.2 Roedd y Comisiwn yn ystyried nad oedd y Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad yn Grynodeb Gweithredol go iawn. **Cytunwyd** y câi ei newid i 'Grynodeb o Gynigion' ar gyfer pob adroddiad yn y dyfodol.

4.3 **Cytunwyd** ar adroddiad y Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr yn amodol ar gyngor cyfreithiol a diwygiadau bach.

5. AROLWG CYMUNEDOL CAERFFILI – YSTYRIED CYNRYCHIOLAETHAU DRAFFT

Penmaen / Crymlyn

5.1 Bu'r Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi ailalinio awgrymedig y ffin rhwng Cymunedau Crymlyn a Phenmaen yn cynnig y dylid trosglwyddo'r datblygiad ar safle Parc Bevin o Grymlyn i Benmaen. Bu iddynt dderbyn rhesymeg y Cyngor y byddai'r datblygiad yn ymestyn ymhellach i'r gorllewin i mewn i Benmaen ac felly'n creu anghysondeb yn y ffin bresennol.

5.2 Nododd y Comisiwn hefyd y gynrychiolaeth a dderbynwyd gan Mr. R G Evans yn awgrymu y dylid trosglwyddo Croes-pen-maen i gyd gan gynnwys datblygiad Parc

Bevin o Gymuned Crymlyn i Gymuned Penmaen. Adroddwyd bod ymweliad â safle ardal Croes-pen-maen wedi dangos nad oedd y ffin awgrymedig wedi'i diffinio'n glir ym mhob ardal, er i Mr Evans awgrymu yn ei gynrychiolaeth ef y dylai fod yn bosibl dod o hyd i ddewisiadau eraill ar gyfer yr ardaloedd hynny. Yr oedd y Comisiwn yn ystyried bod yn well ganddynt ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan nad oedd unrhyw ffin a oedd wedi'i diffinio'n glir ar y tir ar gyfer y cynnig arall sef trosglwyddo Croes-pen-maen i gyd i Gymuned Penmaen.

5.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu ffin awgrymedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ei gynigion Terfynol.

Penmaen / Y Coed Duon / Pontllan-fraith

5.4 Bu'r Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Tref Y Coed Duon a oedd yn wrthwynebus i gynnig y Comisiwn i drosglwyddo Woodfieldside o Gymuned Penmaen i Gymuned Y Coed Duon. Nododd y Comisiwn y pwyntiau a wnaed yng nghynrychiolaethau'r ddau Gyngor bod Afon Sirhywi wedi bod yn ffin hanesyddol hirsefydlog rhwng y ddwy Gymuned ac nad oedd cysylltiadau'r ffyrdd rhwng Woodfieldside a'r Coed Duon mor gryf â'r rhai gyda Phenmaen. Nodwyd hefyd y llwyth gwaith ychwanegol y byddai newid o'r fath yn ei roi ar Gynghorwyr Cymunedol Y Coed Duon.

5.5 Ystyriodd y Comisiwn gynrychioliad Mr R G Evans a ddywedodd fod Woodfieldside yn rhan fwy rhesymegol o Bontllan-fraith ond na ddylid newid y ffin bresennol os nad oedd Cymuned Penmaen yn ennill ardaloedd ac etholwyr fel canlyniad i gynigion eraill a oedd yn cynnwys Cymunedau Crymlyn ac Argoed.

5.6 **Cytunwyd** na fyddai'r Comisiwn yn cadw ei gynnig drafft i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Penmaen, Y Coed Duon a Phontllan-fraith ac y câi'r ffin bresennol ei chadw rhwng Penmaen a'r Coed Duon sef Afon Sirhywi ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Maesycwmer / Pontllan-fraith

5.7 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ffaith bod Y Cynghorydd Woodyatt yn wrthwynebus i'r ailalinio arfaethedig o'r ffin rhwng Pontllan-fraith a Maesycwmer i drosglwyddo 5 eiddo i Dde'r A472 o Faesycwmer i Bontllan-fraith. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at breswylwyr y 5 eiddo i geisio eu barn.

Tref Caerffili

5.8 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Tref Caerffili yn cefnogi'r holl newidiadau arfaethedig i ffiniau eu Cymuned. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu eu cynigion drafft mewn perthynas â Chymuned Tref Caerffili fel eu cynigion terfynol.

Llanbradach a Phwll-y-Pant / Penyrheol Trecenydd ac Energlyn

5.9 Nododd y Comisiwn y gynrychioliad gan Gyngor Cymunedol Llanbradach a Phwll-y-Pant yn gwrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo'r rhan o ystad Energlyn sydd ar hyn o bryd yn eu Cymuned i Gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn. Roedd y Cyngor hefyd wedi'u siomi nad oedd y Comisiwn wedi cefnogi'r ailalinio awgrymedig i'r ffin a fyddai yn eu barn nhw yn datrys yr anghysondeb presennol gyda'r effaith leiaf posibl ar eu Cymuned. Roedd y Comisiwn yn ystyried bod y cynnig drafft yn well na'r ffiniau awgrymedig a roddwyd gerbron gan Lanbradach a Phwll-y Pant gan ei fod yn gliriach ac yn uno'r ardal adeiledig. **Cytunwyd** y câi'r newidiadau a gynigwyd yn yr adroddiad cynigion Drafft eu mabwysiadu ar gyfer yr adroddiad Cynigion Terfynol.

Maesycwmer / Llanbradach a Phwll-y-Pant

5.10 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth a wnaed gan Y Cyng. Woodyatt yn gwrthwynebu'r ailalinio arfaethedig o'r ffin rhwng Maesycwmer a Llanbradach a Phwll-y-pant oherwydd Afon Rhymni oedd y ffin hanesyddol erioed ac nid oedd rheswm rhesymegol dros ei newid. Roedd y Comisiwn yn ystyried gan nad effeithiwyd ar ddim etholwyr gan y newid arfaethedig i'r ffin dylid cadw'r ffin bresennol sef Afon Rhymni.

Penmaen / Argoed

5.11 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth a wnaed gan Y Cyng. Evans y câi Manmoel ei throsglwyddo o Gymuned Argoed i Gymuned Penmaen. Roedden nhw'n ystyried bod yr ardal dan sylw'n rhy fawr a byddai'n gadael Cymuned Argoed yn rhy fach i fod yn ymarferol. **Cytunwyd** y câi'r ffin bresennol rhwng cymunedau Penmaen ac Argoed ei chadw.

Gelligaer

5.12 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth a wnaed gan Gyngor Cymunedol Gelligaer y câi'r ffin rhwng Wardiau Cefn Hengoed a Thir-y-berth ei hailalinio i drosglwyddo'r datblygiad tai yn Fferm Glan Rhymney i ward Tir-y-berth. Ni allai'r Comisiwn wneud unrhyw newid i'r ffin hon, fodd bynnag, gan nad oeddent yn gwneud cynigion ar gyfer ffin Gymunedol Gelligaer.

6. AMSERLEN AROLYGON ETHOLIADOL.

6.1 Nodwyd bod yr amserlen arfaethedig yn amodol ar gwblhau arolygon y Cynghorau Cymunedol. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi gwneud cyflwyniad i'r Grŵp Arolygon Etholiadol yn amlinellu'r problemau posibl o ran amserlen yr Arolygon Etholiadol.

6.2 Adroddwyd y byddai cam cychwynnol o'r gyfran gyntaf o arolygon yn dechrau ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth ac y cafodd y cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Prif Weithredwyr eu trefnu i gyd-fynd â'r dyddiadau hyn.

6.3 Mynegodd y Comisiwn bryder am yr oedi posibl a fyddai'n cael effaith gynyddol ar amserlen yr arolygon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Arolygon Cymunedol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Brif Awdurdodau lle nad oedd yr adroddiad cynigion terfynol wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn;
- y posibilrwydd o Arolygon Etholiadol cyflawn yn cael eu dychwelyd at y Comisiwn gan y Gweinidog i gael eu hadolygu ymhellach; a
- phrydlondeb LLCC wrth wneud penderfyniad ar gynigion y Comisiwn a dosbarthu'r Gorchmynion.

6.4 **Cytunwyd** y câi llythyr at y Gweinidog ei ddrafftio yn tynnu ei sylw at y ffaith bod yr amserlen yn gyfyngedig ac ond yn ymarferol os:

- y câi Arolygon Cymunedol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd eu cyflwyno i'r Comisiwn yn fuan;
- na chaiff cynigion terfynol Arolygon Etholiadol eu dychwelyd at y Comisiwn i'w hadolygu ymhellach; a
- bydd Penderfyniadau a Gorchmynion ynglŷn ag adroddiad cynigion terfynol y Comisiwn yn brydlon.

6.5 Ystyriodd y Comisiynwyr y goblygiadau o or-redeg yr amserlen ar gyfer cwblhau'r arolygon a roddwyd yn y Cyfarwyddiadau. Efallai bydd yn bosibl ceisio am gyfarwyddyd pellach i'r Gweinidog ymestyn y dyddiad cau presennol. **Cytunwyd** y câi cyngor cyfreithiol ei geisio ar y mater hwn.

6.6 Ystyriodd y Comisiwn y dylai'r arolwg fod yn anelu at edrych ar gael cydraddoldeb o ran y nifer o etholwyr o'i gymharu â nifer y cynghorwyr fel blaenoriaeth gyntaf ac wedyn ystyried ceisio mynd mor agos â phosibl at y gymhareb o 1:1750. **Cytunwyd** y câi diweddariad ar y sefyllfa o ran amserlenni ei roi ar yr agenda nes i'r Arolygon Etholiadol gael eu cwblhau.

7. CYNLLUN GWEITHREDOL DRAFFT

7.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Cynllun Gweithredol yn wahanol i rai'r blynyddoedd blaenorol am ei fod yn cymryd i ystyriaeth argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Cynllun Gweithredol y Comisiwn ganolbwyntio ar ofynion y dyfodol yn hytrach nag ar waith a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol. Nodwyd na ellid terfynu'r cylch cynllunio nes i'r Comisiwn dderbyn y llythyr cylch gorchwyl gan yr Isadran Noddi. Dylai'r Comisiwn dderbyn y llythyr cylch gorchwyl fis Ionawr; felly byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Comisiwn dderbyn amlinelliad o'r llythyr cylch gorchwyl yn ystod yr hydref cyn ei gyhoeddi. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â'r Isadran Noddi i drafod y mater.

7.2 Nodwyd bod angen gwneud rhywfaint o newidiadau ac addasiadau i'r Cynllun Gweithredol. **Cytunwyd** ar y Cynllun Gweithredol yn amodol ar addasiadau awgrymedig yr Aelodau.

8. CYNNYDD O RAN RHOI ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR WAITH

8.1 Nododd yr aelodau'r cynnydd a wnaed ar Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Comisiwn.

9. PWYLLGOR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS: GALW AM DYSTIOLAETH AM ARWEINYDDIAETH LEOL A HYDER Y CYHOEDD

9.1 Nododd y Comisiwn yr adroddiad ac roeddent o'r farn nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i'w chyflwyno a fyddai'n berthnasol i gylch gorchwyl yr adroddiad.

10. CYNLLUN STRATEGOL

10.1 Barn y Comisiwn oedd, gan nad oedd gallu mewnol i lunio Cynllun Strategol, byddai'n rhaid cyflogi ymgynghorydd. **Cytunwyd** i ddod o hyd i ymgynghorydd addas i ddrafftio Cynllun Strategol am gost i'r Comisiwn nad yw'n fwy na £2,500.

11. ADRODDIAD CYLLID 2008/09.

11.1 Nododd y Comisiwn y sefyllfa bresennol a'r tanwariant amcangyfredig. Adroddwyd bod y costau ar gyfer trawsnewid TG yn anhysbys o hyd ac felly defnyddiwyd amcangyfrif. Roedd y costau hyn yn debygol o fod yn sylweddol a byddai angen sicrhau beth oeddent cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ystyriwyd efallai byddai'n bosibl i'r Comisiwn wneud taliad ar gyfrif i Gynulliad Cymru a châi hyn ei ymchwilio. **Cytunwyd** i godi mater costau trawsnewid gyda'r Isadran Noddi.

12. UNRHYW FATER ARALL

Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus

12.1 Dywedwyd wrth y Comisiwn am y cynnydd a wnaed ar Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus. Nododd y Comisiwn ei fod wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond mewn meysydd eraill cafodd y lefelau eu haddasu am i lawr oherwydd camddealltwriaeth o ran y broses o gael mynediad at ein lefelau. Nododd y Comisiwn hefyd y câi'r cynllun gweithredu ei anfon at Gwerth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror 2009.

Arolwg Llywodraethu CNLCau

12.2 Nododd y Comisiwn y papur a ysgrifennwyd ar yr arolwg hwn.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfod nesaf fel a ganlyn:

18 Mawrth 2009
12 Mai 2009
17 Mehefin 2009

15 Gorffennaf 2009
17 Medi 2009